OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2024 Rhif 1238 (Cy. 202)

2024 No. 1238 (W. 202)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

SOCIAL CARE, WALES

Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Diwygiadau Amrywiol etc.) (Cymru) 2024

The Partnership Arrangements (Miscellaneous Amendments etc.) (Wales) Regulations 2024

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4) ("y Ddeddf") ac maent yn diwygio'r Rheoliadau a ganlyn—

(a) Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015 (O.S. 2015/1989 (Cy. 299)) ("y Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth");

(b) Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Ardal) (Cymru) 2017 (O.S. 2017/56 (Cy. 26)) ("y Rheoliadau Cynllunio Ardal");

(c) Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Diwygio) a Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/198 (Cy. 46)) ("y Rheoliadau Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad").

Mae rheoliadau 3 i 8 yn diwygio'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth i ehangu amcanion bwrdd partneriaeth rhanbarthol, cynyddu nifer yr aelodau ar y bwrdd a gwneud darpariaeth ar gyfer dosbarth newydd ar aelod o'r bwrdd (aelod sy'n sylwedydd annibynnol).

Maent hefyd yn gwneud diwygiadau er mwyn gwella trefniadau gweinyddol byrddau partneriaeth rhanbarthol, gan gynnwys gofyniad i fwrdd gynnal hunanasesiadau cyfnodol o'i berfformiad, a chynyddu'r ystod o wybodaeth y mae rhaid ei chynnwys yn ei adroddiad blynyddol.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations are made under the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 (anaw 4) ("the Act") and they amend the following Regulations—

(a) the Partnership Arrangements (Wales) Regulations 2015 (S.I. 2015/1989 (W. 299)) ("the Partnership Arrangements Regulations");

(b) the Care and Support (Area Planning) (Wales) Regulations 2017 (S.I. 2017/56 (W. 26)) ("the Area Planning Regulations");

(c) the Partnership Arrangements (Amendment) and Regulated Services (Market Stability Reports) (Wales) Regulations 2021 (S.I. 2021/198 (W. 46)) ("the Market Stability Reports Regulations").

Regulations 3 to 8 amend the Partnership Arrangements Regulations to expand the objectives of a regional partnership board, increase the membership of the board and to make provision for a new class of board member (an independent observer member).

They also make amendments to improve the administrative arrangements of regional partnership boards, including a requirement for a board to undertake periodic self-assessments of its performance, and increase the range of information that must be included in its annual report.

Mae rheoliad 8 yn diwygio Atodlen 1 i'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth fel bod rhaid arfer swyddogaethau awdurdod lleol o dan adran 12 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (mccc 1) yn unol â threfniadau partneriaeth.

Regulation 8 amends Schedule 1 to the Partnership Arrangements Regulations so that a local authority's functions under section 12 of the Children and Families (Wales) Measure 2010 (nawm 1) must be exercised in accordance with partnership arrangements.

Mae rheoliad 9 yn diwygio'r Rheoliadau Cynllunio Ardal i gynyddu'r gofynion ar gyfer monitro a gwerthuso'r cynnydd a wneir gan y cyrff partneriaeth wrth gyflawni gweithredoedd a nodir mewn cynllun a luniwyd o dan adran 14A o'r Ddeddf.

Regulation 9 amends the Area Planning Regulations to increase the requirements for monitoring and evaluation of the progress made by the partnership bodies in delivering on actions identified in a plan prepared under section 14A of the Act.

Mae rheoliad 10 yn diwygio'r Rheoliadau Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad i newid y dyddiad erbyn pryd y mae rhaid cyhoeddi adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad yn y dyfodol.

Regulation 10 amends the Market Stability Reports Regulations to change the date by which future market stability reports must be published.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ and is published on www.gov.wales.

2024 Rhif 1238 (Cy. 202)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Diwygiadau Amrywiol etc.) (Cymru) 2024

Gwnaed *27 Tachwedd 2024*

Yn dod i rym *31 Rhagfyr 2024*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 14A(7)(a), (b) a (d), 144B(1), 166(1)(b) a (2)(a)(ii), 168(2)(a), (c), (d) ac (e), a 196(2)(c) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru o dan adran 196(6)(a) o'r Ddeddf honno ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad(**2**).

RHAN 1

Cyffredinol

Enwi, dod i rym a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Diwygiadau Amrywiol etc.) (Cymru) 2024.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 31 Rhagfyr 2024.

(**1**) 2014 dccc 4 ("y Ddeddf"). Mewnosodwyd adran 14A gan baragraff 34 o Atodlen 4 i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2). Mewnosodwyd adran 144B gan adran 56(1) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (dccc 2). *Gweler* adran 197(1) o'r Ddeddf am y diffiniad o "penodedig", "a bennir" ac "a bennwyd", a "rheoliadau".

(**2**) *Gweler* hefyd adran 40 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4) am ddarpariaeth ynghylch y weithdrefn sy'n gymwys i'r offeryn hwn. Mae cyfeiriadau at Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn adran 196(6)(a) o'r Ddeddf bellach yn cael effaith fel cyfeiriadau at Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

2024 No. 1238 (W. 202)

SOCIAL CARE, WALES

The Partnership Arrangements (Miscellaneous Amendments etc.) (Wales) Regulations 2024

Made *27 November 2024*

Coming into force *31 December 2024*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by sections 14A(7)(a), (b) and (d), 144B(1), 166(1)(b) and (2)(a)(ii), 168(2)(a), (c), (d) and (e), and 196(2)(c) of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014(**1**), make the following Regulations.

A draft of these Regulations was laid before Senedd Cymru under section 196(6)(a) of that Act and has been approved by resolution of Senedd Cymru(**2**).

PART 1

General

Title, coming into force and interpretation

1.—(1) The title of these Regulations is the Partnership Arrangements (Miscellaneous Amendments etc.) (Wales) Regulations 2024.

(2) These Regulations come into force on 31 December 2024.

(**1**) 2014 anaw 4 ("the Act"). Section 14A was inserted by the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 (anaw 2), Schedule 4, paragraph 34. Section 144B was inserted by the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016 (anaw 2), section 56(1). *See* section 197(1) of the Act for the definition of "specified" and "regulations".

(**2**) *See* also section 40 of the Legislation (Wales) Act 2019 (anaw 4) for provision about the procedure that applies to this instrument. References to the National Assembly for Wales in section 196(6)(a) of the Act now have effect as references to Senedd Cymru, by virtue of section 150A(2) of the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Rheoliadau Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad" ("*the Market Stability Reports Regulations*") yw Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Diwygio) a Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad) (Cymru) 2021(**1**);

ystyr "y Rheoliadau Cynllunio Ardal" ("*the Area Planning Regulations*") yw Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Ardal) (Cymru) 2017(**2**);

ystyr "y Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth" ("*the Partnership Arrangements Regulations*") yw Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015(**3**).

(3) In these Regulations—

"the Area Planning Regulations ("*y Rheoliadau Cynllunio Ardal*") means the Care and Support (Area Planning) (Wales) Regulations 2017(**1**);

"the Market Stability Reports Regulations" ("*y Rheoliadau Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad*") means the Partnership Arrangements (Amendment) and Regulated Services (Market Stability Reports) (Wales) Regulations 2021(**2**);

"the Partnership Arrangements Regulations" ("*y Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth*") means the Partnership Arrangements (Wales) Regulations 2015(**3**).

RHAN 2

Diwygio'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth

2. Mae'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 3 i 8.

3. Yn rheoliad 1(4) (dehongli), yn y lleoedd priodol yn nhrefn yr wyddor mewnosoder—

"ystyr "Corff Llais y Dinesydd" ("*the Citizen Voice Body*") yw Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol a sefydlwyd o dan adran 12(1) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020(**4**);";

"ystyr "cynllun ardal" ("*area plan*") yw'r cynllun y mae'n ofynnol i gorff perthnasol ei lunio yn unol ag adran 14A(2) o'r Ddeddf;";

"ystyr "cynllun ardal ar y cyd" ("*joint area plan*") yw cynllun ardal sydd wedi ei lunio gan gorff perthnasol ar y cyd â chorff perthnasol arall yn unol â'r pwerau yn adran 14A(4) neu (5) o'r Ddeddf;".

4.—(1) Mae rheoliad 10 (amcanion y byrddau partneriaeth rhanbarthol) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (a)—

(i) ar ddiwedd is-baragraff (i) hepgorer "a";

PART 2

Amendment of the Partnership Arrangements Regulations

2. The Partnership Arrangements Regulations are amended in accordance with regulations 3 to 8.

3. In regulation 1(4) (interpretation), at the appropriate place in alphabetical order insert—

""area plan" ("*cynllun ardal*") means the plan which a relevant body is required to prepare in accordance with section 14A(2) of the Act;";

""the Citizen Voice Body" ("*Corff Llais y Dinesydd*") means the Citizen Voice Body for Health and Social Care established under section 12(1) of the Health and Social Care (Quality and Engagement) (Wales) Act 2020(**4**);";

""joint area plan" ("*cynllun ardal ar y cyd*") means an area plan which has been prepared by a relevant body jointly with another relevant body in accordance with the powers in section 14A(4) or (5) of the Act;".

4.—(1) Regulation 10 (objectives of regional partnership boards) is amended as follows.

(2) In paragraph (a)—

(i) at the end of sub-paragraph (i) omit "and";

(**1**) O.S. 2021/198 (Cy. 46).
(**2**) O.S. 2017/56 (Cy. 26).
(**3**) O.S. 2015/1989 (Cy. 299); yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2017/491 (Cy. 103), 2018/48 (Cy. 15) a 2019/760 (Cy. 143).
(**4**) 2020 dsc 1.

(**1**) S.I. 2017/56 (W. 26).
(**2**) S.I. 2021/198 (W. 46).
(**3**) S.I. 2015/1989 (W. 299); relevant amending instruments are S.I. 2017/491 (W. 103), 2018/48 (W. 15) and 2019/760 (W. 143).
(**4**) 2020 asc 1.

(ii) ar ddiwedd is-baragraff (ii) hepgorer yr hanner colon a mewnosoder—

“;

(iii) ymateb i'r adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ei lunio a'i gyhoeddi o dan adran 144B(1) o'r Ddeddf,

(iv) hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr, a'r trydydd sector (yn unol â dyletswydd awdurdod lleol o dan adran 16 o'r Ddeddf) wrth ymateb i adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad, ac wrth weithredu cynllun ardal, neu gynllun ardal ar y cyd,

(v) hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad plant o dan 18 oed mewn perthynas â phenderfyniadau sy'n effeithio arnynt ac a wneir wrth arfer y trefniadau partneriaeth (yn unol â dyletswydd awdurdod lleol o dan adran 12 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010(**1**)), a

(vi) hyrwyddo datblygu trefniadau integredig o ran iechyd a gwasanaethau cymdeithasol;”.

(3) Ar ddiwedd paragraff (c) hepgorer yr atalnod llawn a mewnosoder—

“;

(d) gweithio gyda Chorff Llais y Dinesydd i hyrwyddo ymglymiad pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, a gofalwyr, yng ngwaith y trefniadau partneriaeth.”

5.—(1) Mae rheoliad 11 (aelodaeth o fyrddau partneriaeth rhanbarthol) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ddiwedd paragraff (1)(k) hepgorer yr atalnod llawn a mewnosoder—

“;

(l) cynrychiolydd i Ymddiriedolaeth Brifysgol Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru(**2**);

(ii) at the end of sub-paragraph (ii) omit the semi colon and insert—

“;

(iii) respond to the market stability report which local authorities are required to prepare and publish under section 144B(1) of the Act,

(iv) promote social enterprises, co-operatives, user-led services and the third sector (in accordance with a local authority's duty under section 16 of the Act) when responding to a market stability report, and when implementing an area plan, or a joint area plan,

(v) promote and facilitate the participation of children under the age of 18 in relation to decisions which affect them that are made in the exercise of the partnership arrangements (in accordance with a local authority's duty under section 12 of the Children and Families (Wales) Measure 2010(**1**)), and

(vi) promote the development of integrated health and social services arrangements;”.

(3) At the end of paragraph (c) omit the full stop and insert—

“;

(d) to work with the Citizen Voice Body to promote the involvement of people who need care and support, and carers, in the work of the partnership arrangements.”

5.—(1) Regulation 11 (membership of regional partnership boards) is amended as follows.

(2) At the end of paragraph (1)(k) omit the full stop and insert—

“;

(l) a representative of the Welsh Ambulance Services University National Health Service Trust(**2**);

(**1**) 2010 mccc 1.

(**2**) Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (Sefydlu) 1998 (O.S. 1998/678); newidiwyd ei enw gan O.S. 2024/358 (Cy. 66).

(**1**) 2010 nawm 1.

(**2**) The Welsh Ambulance Services National Health Service Trust was established by article 2 of the Welsh Ambulance Services National Health Service Trust (Establishment) Order 1998 (S.I. 1998/678); its name was changed by S.I. 2024/358 (W. 66).

(m) o leiaf un person i gynrychioli buddiannau darparwyr gwasanaethau gofal sylfaenol yn yr ardal a gwmpesir gan y bwrdd partneriaeth rhanbarthol;

(n) o leiaf un person i gynrychioli buddiannau gweithwyr sy'n darparu gwasanaethau iechyd neu wasanaethau gofal cymdeithasol yn yr ardal a gwmpesir gan y bwrdd partneriaeth rhanbarthol;

(o) o leiaf un person i gynrychioli'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol(**1**) sy'n cynrychioli'r ardal a gwmpesir gan y bwrdd partneriaeth rhanbarthol.

(1A) Rhaid i fwrdd partneriaeth rhanbarthol wahodd cynrychiolydd o Gorff Llais y Dinesydd i fod yn aelod sy'n sylwedydd annibynnol o'r bwrdd.

(1B) Caiff bwrdd partneriaeth rhanbarthol wahodd unrhyw bersonau eraill y mae'n meddwl eu bod yn briodol i fod yn aelodau sy'n sylwedyddion annibynnol o'r bwrdd.

(1C) O ran aelod sy'n sylwedydd annibynnol a benodir o dan baragraff (1A) neu (1B)—

(a) rhaid iddo gytuno i gael ei benodi i'r bwrdd i wasanaethu yn rhinwedd y swydd honno;

(b) caiff gymryd rhan mewn unrhyw gyfarfod o'r bwrdd ond nid oes ganddo hawl i bleidleisio mewn unrhyw gyfarfod o'r bwrdd ar unrhyw gwestiwn sydd i'w benderfynu yn y cyfarfod hwnnw;

(c) ni chaniateir iddo gael ei gyfrif mewn unrhyw gworwm ar gyfer cyfarfod o'r bwrdd."

(3) Ym mharagraff (4), yn y lle priodol yn nhrefn yr wyddor mewnosoder—

"ystyr "gwasanaethau gofal sylfaenol" ("*primary care services*") yw'r gwasanaethau a ddarperir fel rhan o'r gwasanaeth iechyd gwladol yn unol â threfniadau a wneir gan Fyrddau Iechyd Lleol yn unol â Rhannau 4 i 7 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**2**);".

(m) at least one person to represent the interests of the providers of primary care services in the area covered by the regional partnership board;

(n) at least one person to represent the interests of workers who provide health or social care services in the area covered by the regional partnership board;

(o) at least one person to represent the County Voluntary Councils(**1**) which represent the area covered by the regional partnership board.

(1A) A regional partnership board must invite a representative of the Citizen Voice Body to be an independent observer member of the board.

(1B) A regional partnership board may invite such other persons to be independent observer members of the board as it thinks appropriate.

(1C) An independent observer member who is appointed under paragraph (1A) or (1B)—

(a) must agree to being appointed to the board to serve in that capacity;

(b) may participate in any meeting of the board but is not entitled to vote at any meeting of the board on any question that falls to be decided at that meeting;

(c) must not be counted in any quorum for a meeting of the board."

(3) In paragraph (4), at the appropriate place in alphabetical order insert—

""primary care services" ("*gwasanaethau gofal sylfaenol*") means the services provided as part of the national health service pursuant to arrangements made by Local Health Boards in accordance with Parts 4 to 7 of the National Health Service (Wales) Act 2006(**2**);".

(**1**) Mae 19 o Gynghorau Gwirfoddol Sirol yng Nghymru (CGS); prif swyddogaeth CGS yw darparu cyngor a gwybodaeth i grwpiau gwirfoddol a chymunedol lleol ar wirfoddoli, ffynonellau cyllido, etc.

(**2**) 2006 p. 42.

(**1**) There are 19 County Voluntary Councils in Wales (CVC); the primary function of a CVC is to provide advice and information to local voluntary and community groups on volunteering, funding sources, etc.

(**2**) 2006 c. 42.

6. Ar ôl rheoliad 11 mewnosoder—

"**Personau cyfrifol**

11A.—(1) Rhaid i bob corff partneriaeth benodi person cyfrifol i hwyluso'r trefniadau partneriaeth a hyrwyddo cydweithredu rhwng—

(a) y corff partneriaeth;

(b) pob un o'r cyrff partneriaeth eraill o fewn y trefniant partneriaeth;

(c) y bwrdd partneriaeth rhanbarthol.

(2) Rhaid i awdurdod lleol benodi'r person a benodir yn gyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol o dan adran 144 o'r Ddeddf yn berson cyfrifol ar gyfer yr awdurdod.

(3) Rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol benodi'r aelod gweithredol a benodir yn aelod o'r bwrdd partneriaeth rhanbarthol yn berson cyfrifol ar gyfer y Bwrdd.

(4) Rhaid i berson cyfrifol—

(a) annog cydweithredu a gwaith partneriaeth o fewn y corff partneriaeth a'i penododd;

(b) arwain o ran hyrwyddo cyfraniad y corff partneriaeth a'i penododd at gyflawni amcanion y bwrdd partneriaeth rhanbarthol;

(c) adrodd yn ôl i'r cabinet neu, yn ôl y digwydd, i fwrdd y corff partneriaeth a'i penododd ar waith y bwrdd partneriaeth rhanbarthol.

Swyddogaethau gweinyddol byrddau partneriaeth rhanbarthol

11B.—(1) Rhaid i fwrdd partneriaeth rhanbarthol gyhoeddi disgrifiadau o rôl a chyfrifoldebau'r categorïau o aelodau'r bwrdd a bennir yn rheoliad 11.

(2) Rhaid i fwrdd partneriaeth rhanbarthol sefydlu a chyhoeddi'r weithdrefn ar gyfer recriwtio aelodau o'r bwrdd sy'n cynrychioli buddiannau personau y cyfeirir atynt yn rheoliad 11(1)(g) ac (h).

(3) Rhaid i fwrdd partneriaeth rhanbarthol ddarparu cymorth ac arweiniad i gynorthwyo aelodau o'r bwrdd, yn enwedig yr aelodau hynny sy'n cynrychioli buddiannau personau y cyfeirir atynt yn rheoliad 11(1)(g) ac (h) ac aelodau sy'n cynrychioli buddiannau sefydliadau y cyfeirir atynt yn rheoliad 11(1)(e).

6. After regulation 11 insert—

"**Responsible persons**

11A.—(1) Each partnership body must appoint a responsible person to facilitate the partnership arrangements and promote co-operation between—

(a) the partnership body;

(b) each of the other partnership bodies within the partnership arrangement;

(c) the regional partnership board.

(2) A local authority must appoint the person appointed as director of social services under section 144 of the Act as the responsible person for the authority.

(3) A Local Health Board must appoint the executive member who is appointed as a member of the regional partnership board as the responsible person for the Board.

(4) A responsible person must—

(a) encourage co-operation and partnership working within their appointing partnership body;

(b) take the lead in promoting their appointing partnership body's contribution to the meeting of the objectives of the regional partnership board;

(c) report back to the cabinet or, as the case may be, the board of their appointing partnership body on the work of the regional partnership board.

Administrative functions of regional partnership boards

11B.—(1) A regional partnership board must publish descriptions of the role and responsibilities of the categories of members of the board which are specified in regulation 11.

(2) A regional partnership board must establish and publish the procedure for recruiting members of the board who represent the interests of persons referred to in regulation 11(1)(g) and (h).

(3) A regional partnership board must provide support and guidance to support members of the board, in particular those members who represent the interests of persons referred to in regulation 11(1)(g) and (h) and members who represent the interests of organisations referred to in regulation 11(1)(e).

Hunanasesu

11C.—(1) Rhaid i fwrdd partneriaeth rhanbarthol gyflawni hunanasesiad o'i berfformiad er mwyn gwerthuso i ba raddau y cyflawnodd yr amcanion a bennir yn rheoliad 10 ("ei amcanion") yn ystod y 12 mis blaenorol a llunio adroddiad ar ei gasgliadau.

(2) Yn y rheoliad hwn ac yn rheoliad 12 (adroddiadau), cyfeirir at hunanasesiad a gyflawnwyd ac adroddiad a luniwyd o dan baragraff (1) gyda'i gilydd fel "adroddiad hunanasesu".

(3) Rhaid i adroddiad hunanasesu hefyd gynnwys manylion unrhyw weithredoedd y mae'r bwrdd yn bwriadu ymgymryd â hwy, ac unrhyw weithredoedd y mae wedi ymgymryd â hwy eisoes, gyda'r nod o gynyddu'r graddau y bydd yn cyflawni ei amcanion yn y flwyddyn sy'n dilyn y flwyddyn y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.

(4) Rhaid i adroddiad hunanasesu (heblaw adroddiad hunanasesu cyntaf bwrdd partneriaeth rhanbarthol) gynnwys asesiad y bwrdd o'r graddau yr effeithiwyd ar gasgliadau'r bwrdd, sydd wedi eu cynnwys mewn adolygiad a gyflawnwyd o dan baragraff (7), o ganlyniad i unrhyw weithredoedd y mae wedi ymgymryd â hwy i gyflawni ei amcanion yn y 12 mis blaenorol.

(5) Rhaid llunio'r adroddiad hunanasesu cyntaf erbyn 1 Ebrill 2025.

(6) Rhaid llunio adroddiadau hunanasesu dilynol fesul ysbaid o ddwy flynedd erbyn 1 Ebrill.

(7) Rhaid i fwrdd partneriaeth rhanbarthol gyflawni adolygiad o adroddiad hunanasesu a luniwyd yn unol â'r rheoliad hwn.

(8) Rhaid i adolygiad o dan baragraff (7) gynnwys gwerthusiad o'r graddau y mae unrhyw weithredoedd gan y bwrdd, gan gynnwys gweithredoedd yr ymgymerwyd â hwy yn unol â pharagraff (3), wedi cynyddu'r graddau y cyflawnodd y bwrdd ei amcanion yn y 12 mis ers i'r adroddiad hunanasesu gael ei lunio.

(9) Rhaid cyflawni'r adolygiad cyntaf erbyn 1 Ebrill 2026.

(10) Rhaid llunio adolygiadau dilynol fesul ysbaid o ddwy flynedd erbyn 1 Ebrill.

(11) Rhaid i fwrdd partneriaeth rhanbarthol gyhoeddi crynodeb o ganlyniadau adroddiad hunanasesu neu, yn ôl y digwydd, yr adolygiad a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliad hwn, mewn adroddiad a lunnir yn unol â rheoliad 12."

Self-assessment

11C.—(1) A regional partnership board must perform a self-assessment of its performance in order to evaluate the extent to which it met the objectives specified in regulation 10 ("its objectives") during the previous 12 months and prepare a report of its conclusions.

(2) In this regulation and in regulation 12 (reports), a self-assessment performed, and a report prepared under paragraph (1) are collectively referred to as "a self-assessment report".

(3) A self-assessment report must also include details of any actions that the board intends to take, and any actions that it has already taken, with a view to increasing the extent to which it will meet its objectives in the year following the year to which the report relates.

(4) A self-assessment report (other than a regional partnership board's first self-assessment report) must include the board's assessment as to the extent to which the conclusions of the board contained in a review performed under paragraph (7) have been affected as a result of any actions it has taken to meet its objectives in the previous 12 months.

(5) The first self-assessment report must be prepared by 1 April 2025.

(6) Subsequent self-assessment reports must be prepared at intervals of two years by 1 April.

(7) A regional partnership board must perform a review of a self-assessment report prepared in accordance with this regulation.

(8) A review under paragraph (7) must contain an evaluation of the extent to which any actions of the board, including actions taken in accordance with paragraph (3), have increased the extent to which the board met its objectives in the 12 months since the self-assessment report was prepared.

(9) The first review must be performed by 1 April 2026.

(10) Subsequent reviews must be prepared at intervals of two years by 1 April.

(11) A regional partnership board must publish a summary of the results of a self-assessment report or, as the case may be, the review undertaken in accordance with this regulation in a report prepared in accordance with regulation 12."

7. Yn rheoliad 12 (adroddiadau), ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

"(4) O **1 Ebrill 2025—**

(a) rhaid i adroddiadau gynnwys—

(i) disgrifiad o ddiben, rôl, aelodaeth, strwythur gweithredu a blaenoriaethau allweddol y bwrdd,

(ii) gwybodaeth am sut y mae'r trefniadau partneriaeth wedi ymateb i'r asesiad o'r boblogaeth a'r adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad, ac i weithredu'r cynllun ardal neu, yn ôl y digwydd, y cynllun ardal ar y cyd,

(iii) manylion am sut y defnyddiwyd adnoddau (wrth ddarparu gwybodaeth yn unol â pharagraff (ii)),

(iv) gwybodaeth am y ffyrdd y mae'r bwrdd wedi cynorthwyo o ran integreiddio trefniadau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol,

(v) gwybodaeth am sut y mae'r bwrdd wedi cynorthwyo o ran darparu gwasanaethau yn well er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i bobl,

(vi) cyfrif o sut y mae'r bwrdd wedi ymgysylltu â dinasyddion (yn enwedig pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, gofalwyr, plant a phobl ifanc) yn ei waith,

(vii) cyfrif o sut y mae'r bwrdd wedi hyrwyddo ymglymiad dinasyddion yn ei waith, ac asesiad o'r effaith y mae hynny wedi ei chael ar wella canlyniadau llesiant ar gyfer pobl yn yr ardal a gwmpesir gan y bwrdd partneriaeth rhanbarthol,

(viii) gwybodaeth am unrhyw weithgarwch comisiynu ar y cyd a'r defnydd o gronfeydd cyfun yn y trefniadau partneriaeth,

(ix) gwybodaeth am sut y mae'r cyrff partneriaeth wedi ymgysylltu â mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a sefydliadau'r trydydd sector (o fewn ystyr adran 16(2) o'r Ddeddf) yn y trefniadau partneriaeth,

7. In regulation 12 (reports), after paragraph (3) insert—

"(4) From 1 April 2025—

(a) reports must contain—

(i) a description of the purpose, role, membership, operating structure and the key priorities of the board,

(ii) information on how the partnership arrangements have responded to the population assessment and the market stability report, and to the implementation of the area plan or, as the case may be, the joint area plan,

(iii) details of how resources have been utilised (while providing information in accordance with paragraph (ii)),

(iv) information on the ways the board has supported integration of health and social services arrangements,

(v) information on how the board has supported improved service delivery to secure better outcomes for people,

(vi) an account of how the board has engaged with citizens (in particular people who need care and support, carers, children and young people) in its work,

(vii) an account of how the board has promoted the involvement of citizens in its work, and an assessment of the impact that has made on improving well-being outcomes for people within the area covered by the regional partnership board,

(viii) information on any joint commissioning activity and the use of pooled funds in the partnership arrangements,

(ix) information on how the partnership bodies have engaged with social enterprises, co-operatives, user-led services and third sector organisations (within the meaning of section 16(2) of the Act) in the partnership arrangements,

(x) gwybodaeth am flaenoriaethau'r bwrdd ar gyfer y 12 mis nesaf,

(xi) crynodeb o adroddiad hunanasesu neu adolygiad a gynhaliwyd yn unol â rheoliad 11C, a

(xii) canlyniadau adolygiad a gynhaliwyd yn unol â rheoliad 8(2) o Reoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Ardal) (Cymru) 2017 (monitro a gwerthuso: adolygiad blynyddol);

(b) rhaid i bob corff partneriaeth gyhoeddi ar ei wefan adroddiad a luniwyd gan y bwrdd partneriaeth rhanbarthol o dan y rheoliad hwn."

8. Yn Atodlen 1, yn Nhabl 1 (swyddogaethau awdurdodau lleol), ar ôl eitem 9 mewnosoder—

"10. Swyddogaethau awdurdod lleol o dan adran 12 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010[(1)].	

[(1)] 2010 mccc 1."

(x) information on the priorities of the board for the next 12 months,

(xi) a summary of a self-assessment report or a review undertaken in accordance with regulation 11C, and

(xii) the results of a review undertaken in accordance with regulation 8(2) of the Care and Support (Area Planning) (Wales) Regulations 2017 (monitoring and evaluation: annual review);

(b) each partnership body must publish on its website a report prepared by the regional partnership board under this regulation."

8. In Schedule 1, in Table 1 (local authority functions), after item 9 insert—

"10. The functions of a local authority under section 12 of the Children and Families (Wales) Measure 2010[(1)].	

[(1)] 2010 nawm 1."

RHAN 3

Diwygio'r Rheoliadau Cynllunio Ardal

9. Yn y Rheoliadau Cynllunio Ardal, yn lle rheoliad 7 rhodder—

"**Monitro a gwerthuso: cynllun cyflawni blynyddol**

7.—(1) Rhaid i gorff perthnasol neu, yn achos cynllun ardal ar y cyd, y cyrff perthnasol lunio a chyhoeddi cynllun cyflawni blynyddol sy'n pennu'r ffordd y bydd y gwasanaethau a'r gweithredoedd a nodir yn y cynllun ardal neu, yn ôl y digwydd, y cynllun ardal ar y cyd, yn cael eu cyflawni neu'r ffordd yr ymgymerir â hwy er mwyn diwallu'r anghenion a nodir yn yr adroddiad asesiad poblogaeth yn ystod y 12 mis nesaf gan ddechrau â'r dyddiad y cyhoeddir y cynllun cyflawni blynyddol.

(2) Rhaid i'r cynllun cyflawni blynyddol cyntaf gael ei lunio a'i gyhoeddi gan gorff perthnasol neu, yn ôl y digwydd, y cyrff perthnasol erbyn 1 Ebrill 2025.

PART 3

Amendment of the Area Planning Regulations

9. In the Area Planning Regulations, for regulation 7 substitute—

"**Monitoring and evaluation: annual delivery plan**

7.—(1) A relevant body or, in the case of a joint area plan, the relevant bodies must prepare and publish an annual delivery plan which specifies the way in which the services and actions identified in the area plan or, as the case may be, the joint area plan, will be delivered or undertaken in order to meet the needs identified in the population assessment report during the next 12 months beginning with the date on which the annual delivery plan is published.

(2) The first annual delivery plan must be prepared and published by a relevant body or, as the case may be, the relevant bodies by 1 April 2025.

(3) Rhaid i bob corff perthnasol gyhoeddi ar ei wefan y cynllun cyflawni blynyddol a luniwyd gan y corff perthnasol neu, mewn achosion priodol, y cyrff perthnasol.

(4) Rhaid i gorff perthnasol neu, pan fo cynllun blynyddol ar y cyd wedi ei lunio, un o'r cyrff perthnasol gyflwyno i Weinidogion Cymru gopi o gynllun cyflawni blynyddol a luniwyd yn unol â'r rheoliad hwn.

Monitro a gwerthuso: adolygiad blynyddol

8.—(1) Rhaid i gorff perthnasol neu, yn achos cynllun ardal ar y cyd, y cyrff perthnasol gymryd camau priodol i fonitro a gwerthuso effaith cyflenwi'r gwasanaethau a'r gweithredoedd yr ymgymerir â hwy yn unol â'r cynllun ardal neu, mewn achosion priodol, y cynllun ardal ar y cyd.

(2) Rhaid i gorff perthnasol neu, yn achos cynllun ardal ar y cyd, y cyrff perthnasol gynnal adolygiad blynyddol o'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r cynllun ardal neu, yn ôl y digwydd, y cynllun ardal ar y cyd, o ganlyniad i'r gwasanaethau a ddarparwyd a'r gweithredoedd yr ymgymerwyd â hwy yn unol â'r cynllun cyflawni blynyddol (wedi ei lunio yn unol â rheoliad 7(1)) ar gyfer y cyfnod 12 mis blaenorol.

(3) Rhaid i'r adolygiad blynyddol cyntaf gael ei gynnal gan gorff perthnasol neu, yn ôl y digwydd, y cyrff perthnasol, erbyn 1 Ebrill 2026.

(4) Rhaid i gorff perthnasol neu, mewn achosion priodol, y cyrff perthnasol sicrhau bod canlyniadau adolygiad a gynhaliwyd yn unol â pharagraff (2) yn cael eu cynnwys fel rhan o'r adroddiad blynyddol a gyhoeddir gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol perthnasol yn unol â rheoliad 12 o'r rheoliadau trefniadau partneriaeth."

(3) Each relevant body must publish on its website the annual delivery plan which has been produced by the relevant body or, in appropriate cases, the relevant bodies.

(4) A relevant body or, where a joint annual plan has been prepared, one of the relevant bodies must submit to the Welsh Ministers a copy of an annual delivery plan prepared in accordance with this regulation.

Monitoring and evaluation: annual review

8.—(1) A relevant body or, in the case of a joint area plan, the relevant bodies must take appropriate steps to monitor and evaluate the impact of delivery of the services and actions undertaken in accordance with the area plan or, in appropriate cases, the joint area plan.

(2) A relevant body or, in the case of a joint area plan, the relevant bodies must undertake an annual review of the progress made in the delivery of the area plan or, as the case may be, the joint area plan as a result of the services provided and actions undertaken in accordance with the annual delivery plan (prepared in accordance with regulation 7(1)) for the previous 12-month period.

(3) The first annual review must be undertaken by a relevant body or, as the case may be, the relevant bodies by 1 April 2026.

(4) A relevant body or, in appropriate cases, the relevant bodies must ensure that the results of a review undertaken in accordance with paragraph (2) are included as part of the annual report published by the relevant Regional Partnership Board in accordance with regulation 12 of the partnership arrangements regulations."

RHAN 4

Diwygio'r Rheoliadau Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad

10. Yn y Rheoliadau Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad, yn rheoliad 4 (cyhoeddi adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad)—

(a) ar ddiwedd paragraff (1) mewnosoder "(yr adroddiad cyntaf)";

PART 4

Amendment of the Market Stability Reports Regulations

10. In the Market Stability Reports Regulations, in regulation 4 (publication of market stability report)—

(a) at the end of paragraph (1) insert "(the first report)";

(b) yn lle paragraff (2) rhodder—

"(2) Rhaid i awdurdodau lleol gyhoeddi eu hail adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad erbyn 1 Medi 2027.

(3) Rhaid cyhoeddi adroddiadau dilynol ar sefydlogrwydd y farchnad fesul ysbaid nad yw'n fwy na phum mlynedd erbyn 1 Medi."

(b) for paragraph (2) substitute—

"(2) Local authorities must publish their second market stability report by 1 September 2027.

(3) Subsequent market stability reports must be published at intervals not exceeding five years by 1 September."

Dawn Bowden

Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
27 Tachwedd 2024

Minister for Children and Social Care under authority of the Cabinet Secretary for Health and Social Care, one of the Welsh Ministers
27 November 2024

©℗Hawlfraint y Goron 2024

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

© Crown copyright 2024

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 978-0-348-39624-9

£8.14

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2024/1238

9 780348 396249